Rheoliad coedwigoedd a choetiroedd

Safon Coedwigaeth y DG -
http://www.forestry.gov.uk/pdf/fcfc001.pdf/$FILE/fcfc001.pdf

Pwrpas Safon Coedwigaeth y DG yw gosod safonau ar gyfer rheoli cynaliadwy pob coedwig a choetir yn y DG. Hwn yw canolbwynt system sy'n gosod canllawiau a monitro fforestydd. Mae'r Safon yn gysylltiedig â datblygu protocol rhyngwladol ar gyfer coedwigaeth gynaliadwy. Fe'i defnyddir yn y DG fel sail i ddatblygu monitro fforestydd a dyma'r sail y datblygwyd Cynllun Ansawdd Coetirol y DG (UKWAS) arno, (gweler Tudalen 11). Gellir ei ddefnyddio hefyd i asesu'r cydymffurfiad â safonau ardystio rheoli megis ISO 14000 ac EMAS.

Canllawiau Coedwig – Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd
http://www.forestry.gov.uk/website/publications.nsf/pubsbycategorynew?Openview&restricttocategory=Guideline

Mae'r Canllawiau ar gyfer y wladwriaeth a'r sectorau preifat fel ei gilydd. Mae cymeradwyaeth grantiau ledled y DG, cwympo coed, trwyddedau yn Lloegr, Yr Alban a Chymru, a phob gweithredu sy'n ymwneud â choedwigaeth yn ddibynnol ar yr amodau a osodwyd yn y dogfennau. Nid oes gan y Canllawiau statws cyfreithiol ffurfiol ond, mewn erlyniad byddai methu dilyn y Canllawiau yn effeithio'n anffafriol ar sefyllfa perchennog y goedwig, contractwr neu is-gontractwr.

Cynllun Ansawdd Coetirol y Deyrnas Gyfunol - UKWAS -
http://www.ukwas.org.uk/

Mae Cynllun Ansawdd Coetirol y Deyrnas Gyfunol (UKWAS) yn safon ardystio annibynnol ar gyfer gwireddu rheoli coetiroedd mewn dull cynaliadwy yn y Deyrnas Gyfunol. Nid yw UKWAS yn gynllun ardystio, ond mae'n unigryw mewn cynllunio i ddarparu un safon cyffredinol i'w ddefnyddio oddi mewn i'r rhaglenni sy'n gweithredu yn y DG; mae'r rhaglenni hyn yn darparu ffordd sy'n rhoi sicrwydd i brynwyr a defnyddwyr bod coed a chynnyrch coed yn dod o goetiroedd a reolir yn gynaliadwy.

I grynhoi:

- Mae cwrdd â Safon Coedwigoedd y DGl yn golygu bod coed yn **gyfreithlon**
- Mae'r Canllawiau yn dweud pa un yw'r ffordd orau i gwrdd â Safon Coedwigoedd y DG
- Mae cwrdd â Safon UKWA yn golygu ei fod yn **gynaliadwy a chyfreithlon**
- Mae Ardystio Annibynnol yn golygu y gallwch **wirio** ei fod yn gynaliadwy a chyfreithlon

Hydref 2007